

## Adroddiad Blynyddol Aelod

Adroddiad gan y Cynghorydd Les Day, Ward Garth, 31 Mai 2013

Mae Mesur Llywodraeth leol (Cmru) 2011 yn galw ar awdurdodau lleol i wneud darpariaeth i alluogi cynghorwyr unigol i gynhyrchu a chyhoeddi adroddiad blynyddol os ydynt yn dymuno. Mae Llywodraeth Cymru am i'r etholwyr wybod mwy am waith eu haelodau etholedig o awdurdod lleol.

Tra nad yw'n orfodol i unrhyw gynghorydd gynhyrchu adroddiad blynyddol, cytunwyd y byddai'r Aelod Cabinet ar gyfer Gofal Cwsmer a minnau fel cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (ynghyd ag unrhyw aelod arall fyddai'n dymuno) yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer 2012/13 i'w gyhoeddi ar safle gwe Cyngor Gwynedd. Bydd y peilot yn cynorthwyo cynghorwyr i ddysgu io brofiadau ac engreiffiau gwahanol ac er mwyn i Gyngor Gwynedd adnabod ac asesu adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r gofyn hwn.

Ers fy etholiad ym Mai 2012 rwyf wedi gwasanaethu ar y Pwyllgor Craffu Corfforaethol, y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a Phwyllgor Rheoli Gwarchodfa Natur Traeth Lafan. Rwyf wedi ymgymryd a 2 ymchwiliad arbennig dros y Pwyllgor Craffu Corfforaethol fel rhan o'r Grwp Meddylfryd Systemau a'r Gweithgor Agenda Wledig, sydd yn parhau. Rwyf hefyd yn aelod o Grwp Prosiect Bangor a'r pwyllgor Rdal. Rwyf wedi mynychu'r Pwyllgor Cynllunio fel aelod lleol fel y mae materion am y Garth wedi codi i'w trafod. Rwyf hefyd wedi mynychu cyfarfodydd a gweithdai ynglyn â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

### 1. Cyfarfodydd Cyngor a Fynychwyd

Cyfarfod	Nifer o Gyfarfodydd	Nifer o Gyfarfodydd a fynychwyd
Cyngor Llawn	6	6
Pwyllgor Craffu Corfforaethol	6	5
Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu Corfforaethol	6	5
Gweithgor Meddylfryd Systemau	7	7
Gweithgor Agenda Wledig	1	1
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd	4	4
Cynllunio (fel aelod lleol)	4	4
Pwyllgor Rheoli Gwarchodfa Natur Traeth Lafan	1	1
Grwp Prosiect Bangor	3	3

### 2. Cyrsiau Hyfforddi a Fynychwyd

Rwyf wedi manteisio ar gymaint o hyfforddiant a phosib er mwyn cynyddu fey nealltwriaeth o Gyngor Gwynedd, ei weithdrefnau a'i wasanaethau er mwyn gwasanethu fy ward yn well. Rwy'n gobeithio fy mod wedi cael digon o ddealltwriaeth i'm galluogi i roi cyngor yn fy nghymorthfeydd ward yn y Garth a fydd yn cychwyn nym Medi 2013. Rwyf wedi mynychu 18 sesiwn hyfforddi:-

Anwytho Cyffredinol i Aelodau Newydd  
Cyflwyniad i Gynllunio  
Cyflwyniad i'r Diwylliant newydd a Phrotocolau  
Pwyllgor Craffu  
Anwytho Rhanbarthol Gogledd Cymru  
Rheoli Newid (Strategol a Gwella)  
Cynulliad Cymruy – Digwyddiad Rhanbarthol  
Gweithdai Cynefino  
Anwytho Rhanbarthol Gogledd Cymru  
Dulliau Cwestiynu ar gyfer Craffu  
Rhiantu Corfforaethol

Hyfforddiant Addysg  
Cod Ymddygiad  
Ipad  
Gwybodaeth am Bobl: Eich Cyfrifoldeb  
Data Perfformiad Ysgolion ac Awdurdodau  
Llywodraethu Ysgolion a Diogelu Plant

3. Seminarau a gweithdai a Fynychwyd

Cynllun Strategol  
Seminar ar Sefyllfa Ariannol Cyngor Gwynedd

4. Cyrff Allanol lle rwyf yn cynrychioli Cyngor Gwynedd

Llywodraethwr Ysgol Hiracl, Bangor  
Aelod Pwyllgor Rheoli Traeth Lafan

5. Cyfarfodydd eraill yr wyf wedi eu mynychu fel Cynghorydd Gwynedd

Cyd-gynllunio Datblygu Lleol  
Dichonolrwydd ail-wampio Gerddi Beibl y Gadeirlan

6. Cyfarfodydd a drefnwyd gyda Swyddogion Gwynedd

Ym Mawrth, cefais fy ethol yn gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd a nawr mae gennyf gyfarfodydd rheolaidd gyda Swyddogion Gwynedd

7. Cyfarfodydd Safle gyda Swyddogion Gwynedd

Rwyf wedi cynnal ymweliadau safle ac archwiliadau gyda Swyddogion Cyngor Gwynedd, yn arbennig yn edrych ar barcio, ardaloedd cadwraeth posib, arwyddion a marcio ffyrdd, cyflwr lonydd a phafinoedd yn cynnwys tyllau a glendid, hawliau tramway, yn arbennig Lon y Cariadon, lle mae astudiaeth dichonolrwydd ar y gweill ar hyn o bryd. Rwyf hefyd wedi mynychu cyfarfod safle ar Rhandiroedd ym Mangor.

8. Cyfarfodydd Eraill

Rwyf yn aelod o Grwp Cyswllt Prifysgol Bangor lle rydym wedi trafod materion fel Llety I Fyfyrrwyr, defnydd o adeiladau'r Brifysgol a Pontio.

9. Other Activities

Rwy'n Gadeirydd Canolfan Gymuned y Garth sydd yn ceisio cynnig dosbarthiadau a gwasanaethau sydd, rydym yn credo, o ddiddordeb i bobl leol ac sydd hefyd yn cynnig incwm bychan i'r Ganolfan mewn rhent. Rydym yn credo bod y gwaith hwn hefyd yn cynnig cyfle gwaith i unrhyw un ddarparu dosbarthiadau. Mae'r ganolfan hefyd yn bwynt ffocal I'r gymuned.

10. Gweithgareddau Etholaethol

Rwyf wedi derbyn nifer sylweddol o alwadau ffon, ebyst a llythyrau gan breswylwyr yn ceisio help a chynghor o Faterion Cynllunio a Gasglu Sbwriel. Yn benodol, yn y Garth, mae gennym fater cynhennus ynglyn â Iard Gychod Dickie's. Ym Mawrth, yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus a gynhaliwyd gan Watkin Jones, Symbylais Gyfarfod Cyhoeddus i Drigolion y Garth i drafod y cynigion hyn; cafodd ei fynychu'n dda. Cytunwyd ar gynllun gweithredu a roeddwm yn bles bode in hymdrechion wedi body n llwyddiannus.

Yn ystod fy Ymgyrch Etholiadol ac ers fy ethol in Mai 2012, rwyf wedi gweithio i ddatrus mater Lon y Cariadon o ran wyneb y lon a diogelwch defnyddwyr, cerddwyr yn arbennig. Rwy'n bles bod Cyngor Gwynedd yn cynnal astudiaeth dichonoldeb ac Arolygon Traffig ar ddefnyddwyr traffig i chwilio am ffyrdd o ddatrys y problem.